OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 146 (Cy.21)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*26 Ionwar 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*28 Ionawr 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraff 2(8) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) (Diwygio) 2010. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

Diwygio Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000

2. Diwygir Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000(**3**) drwy fewnosod, ar ôl rheoliad 2 (tybiaethau rhagnodedig am beiriannau a pheirianwaith), y canlynol —

> "**Tybiaethau rhagnodedig am beiriannau a pheirianwaith: prisio am 1 Ebrill 2010 a diwrnodau dilynol**
>
> **2A.**—(1) At ddibenion penderfynu gwerth ardrethol hereditament am unrhyw ddiwrnod ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010, wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988—

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd paragraff 2(8) o Atodlen 6 gan baragraff 38(8) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Diffinnir y term "prescribed" yng nghyd-destun gorchymyn neu reoliadau yn adran 146(6).

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddir gan adran 143 o Ddeddf 1988 ac Atodlen 6 i'r Ddeddf honno, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) O.S. 2000/1097 (Cy.75), y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.